# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 08 GORFFENNAF 2024, yn y Ganolfan Ddeialog, y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Yr Athro Jon Timmis, Is-ganghellor; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; Yr Athro Simon Green; Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA; Yr Athro Louise Marshall; Ms Rhuanedd Richards (trwy Teams); Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd, Undeb Aberystwyth; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Hefyd yn bresennol: Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (ar gyfer cofnod 137 a 143); Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Daniel Taylor, Good Governance Improvement.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mrs Ellen ap Gwynn, yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

## 70. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Llongyfarchiadau

   1.1. Mae'r Hen Goleg wedi ennill gwobr ddylunio uchel ei bri, 'y Defnydd Gorau o Dreftadaeth wrth Greu Lleoedd' yng Ngwobrau Cynllunio 2024.

   1.2. Mae'r Loteri Genedlaethol wedi dyfarnu £5.4m o gyllid ychwanegol i'r Hen Goleg. Llongyfarchwyd yr Athro Anwen Jones a'r tîm am sicrhau'r cyllid ychwanegol.

   1.3. Llongyfarchwyd yr Athro Elizabeth Treasure, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, a Dr Hannah Dee, Uwch Ddarlithydd yn yr Adran Gyfrifiadureg, ar gael eu hanrhydeddu yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin.

   1.4. Mae Rhuanedd Richards wedi derbyn y wisg las gan Orsedd Cymru, mewn seremoni i'w chynnal yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd ym mis Awst 2024.

   1.5. Llongyfarchwyd yr Athro Simon Green, Aelod o’r Cyngor, am gael ei benodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor Ymchwil a Menter ym Mhrifysgol Salford.

2. Diolch

   Ni fyddai'r aelodau canlynol bellach yn gwasanaethu ar y Cyngor a’r is-bwyllgorau o 31 Gorffennaf 2024 ymlaen, a diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau sylweddol yn ystod eu tymor ar y Cyngor.

1. Melanie Hamer, aelod o'r pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.
2. Ellen ap Gwynn, aelod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ac aelod o'r Cyngor.
3. Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr);
4. Yr Athro Reyer Zwiggelaar, Cynrychiolydd y Senedd ar y Cyngor.

Nodwyd hefyd fod tymhorau cyntaf Kylie Evans a'r Athro Louise Marshall ar y Cyngor wedi dod i ben.

3. <u>Cydymdeimlad</u>

Mynegwyd cydymdeimladau yn dilyn marwolaeth Simon Marshall, Adran y Gyfraith a Throseddeg ac IBERS a Mike Gelly Jones, Porthor.

4. Atgoffwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd o'u cyfrifoldebau fel Ymddiriedolwyr ac aelodau o'r Cyngor, a phwysleisiodd yr angen i gynnal cyfrinachedd.

**71. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Nododd Kylie Evans ei bod yn rhan o gynllun pensiwn AUPAS.

**72. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024 (COU2324-125).

**PENDERFYNWYD**

Ni chofnodwyd bod Claire Vaughan yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol. Dylid diwygio'r cofnodion i adlewyrchu'r rhestr [**GWEITHRED**: Swyddog Llywodraethu].

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gywir fel arall.

**73. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2324-126).

Mae'r camau gweithredu erbyn mis Mehefin 2024 wedi'u cwblhau ac maent wedi'u cofnodi yn y tabl 'camau caeëdig' er cyflawnder. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y materion a oedd heb eu cyflawni.

Gweithredoedd 9.8., 42.3 + 42.4

*Dangosyddion Perfformiad Allweddol*

Mae'r DPA yn cael eu hadolygu ochr yn ochr â'r strategaeth newydd a bydd DPA newydd yn cael eu hystyried gan y tîm Cynllunio i sicrhau eu bod yn addas at y diben yn y dyfodol.

12.1 *Trafododd yr aelodau anghenion hyfforddi; meysydd cyfrifoldeb a chylchoedd gorchwyl yr is-bwyllgorau; ac a oes gan y Cyngor y cyfuniad priodol o sgiliau i ymgymryd â'i gyfrifoldebau*
Mae'r Adolygiad Llywodraethu yn mynd rhagddo a bydd yn ystyried meysydd cyfrifoldeb a chylch gorchwyl yr is-bwyllgorau. Mae aelodaeth a sgiliau'r Cyngor wedi cael eu hystyried fel elfen allweddol o'r broses recriwtio ar gyfer aelodau'r Cyngor.

27.1.2. *Trafododd yr Aelodau adrodd yn erbyn ethnigrwydd yng nghyswllt canlyniadau graddau. Nodwyd ei fod yn cael ei drafod yn eang ar draws y sector ac, o ganlyniad i nifer gymharol fach, roedd hi'n anodd cael gwybodaeth bendant. Fodd bynnag, dylid cynnwys hyn yn yr adroddiad.*
Mae hyn wedi'i gwblhau a gellir ei gau.

43.4 *Iechyd a Diogelwch: Mae argymhellion sy'n cael eu dirprwyo i gyfadrannau mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau i'r Cyngor.*
Mae arolygu materion iechyd a diogelwch, a'r cysylltiadau â'r cyfadrannau, fel rhan o'r strwythur llywodraethu cyffredinol, yn rhan o'r rhaglen drawsnewid. CYTUNWYD y gellid cau'r weithred hon gan fod pwynt gweithredu ehangach wedi'i disodli.

46.4.2 *Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch*
CYTUNWYD y gellid cau'r weithred hon gan fod y polisi wedi'i weithredu.

NODWYD

Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig a CHYTUNWYD ar yr argymhellion.

**74. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2324-127).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor pryd y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau, neu gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

<u>Cynllun Ffioedd a Mynediad</u>
Gwnaed mân newidiadau yn dilyn trafodaethau gyda CCAUC, a gymeradwywyd gan y Cadeirydd.

**75. GOHEBIAETH**

<u>Llythyr Adolygu Risg Sefydliadol - Mehefin 2024</u>

DERBYNIWYD

Gohebiaeth gan CCAUC mewn perthynas â chanlyniad asesiad yr Adolygiad Risg Sefydliadol interim diweddaraf (COU2324-128).

NODWYD

Nid oedd y newid yn lefel y risg yn annisgwyl, a theimlwyd ei fod yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa bresennol.

Yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion CCAUC, efallai y bydd rhai adnoddau ar gael gan CCAUC / Medr i gefnogi gwaith cyfalaf ym mlwyddyn ariannol 2024-25.

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr ohebiaeth a'r cynnwys.

Cytunodd yr Aelodau y dylid cyflwyno asesiad yn erbyn y Cod Rheoli Ariannol i'r Cyngor ym mis Tachwedd 2024. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a'r Rheolwr Treth a Buddsoddiadau].

**76. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

1. <u>Adroddiad yr Is-Ganghellor</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2324-129)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu’r prif bwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Myfyriodd yr Aelodau ar ganlyniad yr Etholiad Cyffredinol diweddar ac elfennau anhysbys polisïau'r dyfodol. Cydnabuwyd bod nifer uchel o brifysgolion yn gweithredu cyllidebau diffyg, ac mae angen newidiadau sylfaenol i fynd i'r afael â'r heriau.

3. Amlinellwyd y ffigurau denu myfyrwyr. Roedd swyddogion yn optimistaidd, ond nid oedd yr optimistiaeth wedi’i hadlewyrchu yn y gyllideb i sicrhau dull darbodus o gyllidebu.

4. Mae gweithdai'n cael eu cynnal ar draws y brifysgol mewn perthynas â strategaeth y Brifysgol. Mae bron i 170 o staff wedi cymryd rhan yn y broses, a dylai’r nifer hwn gynyddu i dros 200 erbyn diwedd y broses - a hynny ar draws pob gradd a disgyblaeth. Nodwyd bod cynllunio ar gyfer y dyfodol yn erbyn y cyd-destun presennol yn heriol mewn rhai sesiynau.

5. Mae amlygrwydd y Cyngor a'i gyfrifoldebau yn gwella ar draws y Brifysgol. Mae gwaith i'w wneud o hyd, a chynigiodd yr Aelodau eu cefnogaeth i wella ymwybyddiaeth a meithrin gwell cyswllt â staff. Rhannodd swyddogion enghreifftiau o'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o waith y Cyngor, a'i Aelodau.

6. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Phenaethiaid Adrannau i rannu diweddariadau, yn enwedig o ran y Rhaglen Drawsnewid. Mae cyfarfodydd gyda’r holl staff hefyd yn cael eu cynnal ochr yn ochr â gweithdai wedi'u targedu. Mae

gwaith ar y gweill i gyhoeddi crynodebau o gyfarfodydd y Weithrediaeth, a fydd yn cynnwys camau gweithredu allweddol ac eitemau trafod. Nododd swyddogion y gall cyfathrebu â'r holl staff fod yn heriol, yn enwedig os anfonir gohebiaeth dros e-bost, neu os nad yw staff yn cymryd rhan mewn gweithdai neu gyfarfodydd gyda’r holl staff. Mae rôl Pennaeth yr Adran yn hanfodol yn y cyd-destun hwn i sicrhau bod negeseuon yn cael eu cyfleu yn y modd mwyaf priodol.

7. Croesawodd yr Aelodau y data ar Ymchwil, gan nodi'n benodol y sefyllfa gref. Adroddwyd y byddai'r Aelodau'n derbyn sesiwn briffio ar ymchwil yn y sesiwn strategaeth yn yr hydref.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Diweddariad ar y Strategaeth</u>
DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor.

NODWYD

1. Gofynnir am adborth dros yr haf, a bydd fersiwn derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2024.

2. Trafododd yr Aelodau sut y gellid ymgorffori'r strategaeth ar draws y Brifysgol a'i defnyddio fel dogfen fyw.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd y diweddariad.

3. <u>Gwersi a ddysgwyd o adolygiadau mewnol.</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor, Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio, a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg

NODWYD

1. Gwnaed newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ariannol ei hadrodd, er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch data. O fewn y tîm Cyllid, mae'r broses adrodd yn cynnwys sawl rôl allweddol i gynyddu dealltwriaeth a gwybodaeth am y broses. Mae rhagor o waith i'w wneud, ond bu mwy o ymwneud a gwell tryloywder o ganlyniad.

2. Trafodwyd y newidiadau diwylliannol o fewn y sefydliad, a sut mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn modd clir a thryloyw, yn enwedig i unigolion heb gymwysterau ariannol – ar y Weithrediaeth a'r Cyngor. Y nod i Swyddogion yw darparu gwybodaeth fanwl, a bod senarios a rhagolygon yn cael eu deall. Dylai'r Cyngor a'r Weithrediaeth barhau i herio a chwestiynu os nad yw'r wybodaeth yn cael ei deall yn llawn. Gellid darparu hyfforddiant rheoli arian ar draws yr uwch dîm arwain ehangach yn y tymor hwy, ond y ffocws ar hyn o bryd yw darparu'r wybodaeth mewn modd clir a chryno.

3. Mae strwythur dros dro ar waith o fewn y tîm Cyllid, gydag arweinyddiaeth wasgaredig i leihau lefel y risg ac i sicrhau bod prosesau effeithlon ar waith i gynnal gwiriadau a balansau priodol.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr Aelodau yr adroddiad, y camau a gymerwyd i liniaru materion, a'r camau gweithredu parhaus i'r Weithrediaeth a'r Cyngor er mwyn sicrhau bod adroddiadau ariannol yn cael eu herio ac y craffir arnynt yn effeithiol.

## 77. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (COU2324-130)

NODWYD

1. Un o'r prif flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf fydd sicrhau nad yw'r sefyllfa ariannol heriol yn cael effaith negyddol ar brofiad y myfyrwyr. Bydd Undeb Aberystwyth yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda swyddogion y Brifysgol.

2. Cynhelir cyfarfodydd bob dau fis gyda CCAUC, a'r dybiaeth yw y bydd y cyfarfodydd hynny'n parhau yn yr un fformat gyda Medr.

3. Dathlodd UMCA ei ben-blwydd yn 50 oed yn ddiweddar. Yn rhan o'r dathliadau, croesawyd cyn-aelodau UMCA yn ôl i Aberystwyth; gwahoddwyd holl gyn-lywyddion UMCA i ginio; a chynhaliwyd sesiwn holi ac ateb, a oedd yn cynnwys llywydd cyntaf UMCA. Cynhaliwyd gig UMCA 50 gyda'r nos, a oedd yn cynnwys perfformiadau gan Mynediad am Ddim, a ffurfiwyd yn Aberystwyth ar gyfer y ddawns ryng-golegol gyntaf.

4. Mae UMCA hefyd yn edrych ymlaen at groesawu dros 500 o fyfyrwyr ledled Cymru i'r eisteddfod ryng-golegol ym mis Mawrth 2025.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 78. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd (COU2324-131).

NODWYD

1. Nododd yr Aelodau fod y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant wedi cael trafodaeth fanwl ynghylch y data a'r adroddiadau am ddigwyddiadau yn ei gyfarfod. Mae dulliau adrodd a chadw cofnodion yn gwella, ac adlewyrchir hyn yn y data.

2. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi parhau gyda'i archwiliadau yn rhan o'i raglen waith. Mae'r adran yn gweithio gyda’r adran Ystadau i flaenoriaethu'r amserlen waith, sy'n heriol yn y cyd-destun ariannol, ond y flaenoriaeth yw sicrhau ein bod ni a’r cyllidebau’n canolbwyntio ar y meysydd allweddol.

3. Trafododd swyddogion y gwrthdystiadau diweddar, gan nodi bod gwrthdystiadau wedi'u cynnal mewn sawl prifysgol. Mae CCAUC wedi dweud y dylai prifysgolion rannu gwybodaeth gyda nhw, gan nodi'r effaith a'r canlyniadau. Trafododd yr Aelodau a oedd y mater yn ddigwyddiad hysbysadwy i'r Comisiwn Elusennau. Cytunwyd bod yr effaith yn gymharol isel yn Aberystwyth, o'i gymharu â phrifysgolion eraill, ac nad oedd yn cyrraedd y trothwy ar gyfer adrodd. Mae mesurau parhad busnes ar waith, ac yn barod i'w rhoi ar waith yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

## 79. MATERION ARIANNOL

1. <u>Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio, Mrs Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid, a Mr Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2324-132).

NODWYD

1. Trafododd yr aelodau gyllid WEFO, a phwysau dyledwyr ar lif arian. Dylai'r Cyngor ysgrifennu at WEFO os oes angen, ac anfon copi at y Gweinidogion perthnasol, i bwysleisio difrifoldeb yr effaith. Disgwylir £1.5m gan CThEF hefyd, ac mae'r Brifysgol yn aros am gadarnhad o'r sefyllfa.

2. Adroddwyd mai'r sefyllfa alldro fwyaf tebygol fyddai diffyg o £5.8m.

3. Mae swyddogion yn hyderus bod rheolaethau yn cael eu rheoli, ac mae cyfleuster y Cytundeb Adnodd yn rhoi'r gallu i reoli'r sefyllfa ariannol. Fodd bynnag, gallai unrhyw ddigwyddiadau annisgwyl dros y 6-9 mis nesaf fod yn heriol iawn.

4. Trafododd yr Aelodau effaith swyddi gwag a sut y rheolir materion gweithredol. Adroddwyd bod y gwaith yn cael ei reoli, ond roedd yn heriol mewn rhai meysydd yn benodol. Mae'r holl waith recriwtio nad yw'n hanfodol wedi'i atal. Amlinellwyd rhai pryderon mewn perthynas â chyllidebau penodol, ond roedd yr elfennau hyn yn cael eu rheoli fel rhan o nod y rhaglen drawsnewid i weithio'n wahanol.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024-27 a’r cynllun blynyddol ar gyfer 2024-25

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-133).

NODWYD

1. Oherwydd y Rhaglen Drawsnewid a'r newidiadau i gofrestr risg y brifysgol, cyflwynwyd drafft diwygiedig i'r Weithrediaeth a’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, gyda chynllun ar gyfer tymor 1, a chynllun diwygiedig i'w gyflwyno i ARS ym mis Hydref 2024 i'w gymeradwyo'n derfynol.
2. Byddai'r gofrestr risg newydd yn gysylltiedig â'r cynllun archwilio mewnol newydd.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd yr argymhellion.

3. Cyllideb 2024-25, a Rhagolygon Ariannol y blynyddoedd tan 2028-29

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-134).

NODWYD

1. Disgwylir diffyg diwygiedig, o £15m mwy na thebyg. Mae hyn o ganlyniad i risg uwch o amgylch nifer o feysydd; yn enwedig rhagolygon denu myfyrwyr rhyngwladol a phroses glirio heriol ddisgwyliedig.
2. Mae arbedion sylweddol eisoes wedi'u nodi, gyda £5.6m wedi'i nodi o'r gyllideb a'r rowndiau cynllunio. Ni chytunwyd ar bob gam gweithredu’n llawn, ac mae rhai risgiau mewn perthynas â chyflawni rhai arbedion. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i gadarnhau'r arbedion.
3. Gwnaed oddeutu £2.8m o arbedion drwy’r cynllun Diswyddo Gwirfoddol. Hyd nes y bydd yr holl gytundebau wedi'u llofnodi a'r broses wedi'i chwblhau, gall y rhif hwn newid. Felly, mae angen arbedion pellach o £3.6m.
4. Mae CCAUC wedi darparu'r datganiad cynaliadwyedd blynyddol i'w gwblhau, sy'n cynnwys sawl senario ar gyfer profi. Rhannwyd canlyniad y gwaith modelu yn erbyn y senarios gyda'r Cyngor, ynghyd â lefel y risg sy'n gysylltiedig â phob senario. Mae trafodaethau'n parhau gyda CCAUC ynghylch llif arian a'r sefyllfa ariannol gyffredinol.
5. Trafododd yr Aelodau amrywiol opsiynau mewn perthynas â llif arian a benthyca, gan gynnwys cais ffurfiol i CCAUC am fenthyciad hirdymor i ategu hylifedd arian parod. Cadarnhaodd swyddogion na chodwyd llog ar y blaensymiau gan CCAUC. Nid oedd yn glir pa amodau y byddai'r brifysgol yn ddarostyngedig iddynt pe bai benthyciad yn cael ei gymeradwyo.

6. Bu'r Aelodau'n trafod ac yn ystyried pa opsiynau oedd yn cael eu hystyried gan swyddogion, pe bai'r senarios a amlinellwyd yn cael eu gwireddu. Mae'r Weithrediaeth yn parhau i adolygu opsiynau a lefelau risg pob senario.

7. Craffodd yr Aelodau ar y data a'r rhagolygon ar gyfer denu myfyrwyr yn erbyn y gyllideb. Rhoddwyd sicrwydd gan swyddogion yn seiliedig ar y broses gynllunio; gwybodaeth leol a rhyngwladol; Ceisiadau Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS); a'r targedau darbodus.

8. Adroddodd swyddogion fod adroddiadau misol yn cael eu rhannu gyda'r Weithrediaeth, gyda gwahanol waith modelu, yn seiliedig ar gyfraddau trosi blynyddoedd blaenorol a thueddiadau yn y gorffennol.

9. Mae opsiynau'n cael eu hystyried mewn perthynas â'r targed arbedion o £12m ar gyfer 2024-25, sy'n cynnwys gostyngiad mewn costau staff, sef prif wariant y brifysgol.

10. Trafododd yr Aelodau oblygiadau posibl torri cyfamodau bancio, gan nodi bod barn y banc ar y toriad yn elfen hanfodol, ochr yn ochr â hyder y banc yn y cynlluniau adfer, a'u hasesiad o'r risg. Anogwyd swyddogion gan yr aelodau i gynnal trafodaethau gyda'r banc er mwyn osgoi torri cyfamodau bancio; i drafod y parodrwydd i dderbyn risg, ac i drafod opsiynau amgen.

11. Roedd trosglwyddiad CCAUC i Medr hefyd yn golygu nad yw Amodau Cofrestru yn debygol o gael eu gweithredu tan 2026-27, felly mae unrhyw ganlyniadau yn aneglur.

12. Amlinellodd y Cadeirydd Adnoddau a Pherfformiad y drafodaeth yn y pwyllgor, gan nodi'n benodol y sicrwydd mewn perthynas â'r targedau recriwtio, a mwy o fanylder yn y ffigurau. Roedd swyddogion wedi amlinellu'r gwelliannau o ran sicrhau prosesau cywir o osod cyllideb; a data o ansawdd da ar lefelau adran a chyfadran. Nodwyd anwadalrwydd y farchnad recriwtio fel ffactor allweddol, unwaith eto.

13. Bu’r aelodau a’r swyddogion hefyd yn ystyried a thrafod rhagolwg pellach, gyda'r nod o ddychwelyd i warged bach. Hyd nes bod y brifysgol yn cynhyrchu digon o incwm, roedd y potensial am fuddsoddiad pellach mewn TG a'r ystâd yn gyfyngedig. Roedd nodi a thyfu ffrydiau incwm yn hanfodol, er bod nifer o heriau o hyd o ran cyflawni'r mentrau hyn.

14. Trafododd yr aelodau weithgareddau masnachol y brifysgol, yn benodol Canolfan y Celfyddydau a'r ffermydd. Nodwyd bod rhai costau, fel prisiau llaeth, yn ffactorau allanol nad oeddent o fewn rheolaeth y Brifysgol, ond bod costau sylweddol yn parhau yn y meysydd hyn sy'n cael sylw drwy fesurau a oedd yn anelu at leihau'r risg a'r costau.

15. Trafododd yr Aelodau y camau nesaf, gan ystyried yn benodol effaith bosibl gwahanol gynlluniau'n ymwneud â newidiadau staffio.

16. Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith a'u tryloywder.

**PENDERFYNWYD**

17. Cymeradwywyd cyllideb 2024-25.

18. Roedd yr aelodau'n cefnogi'r strategaeth tymor canolig, ond nodwyd y dylid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor.

19. Cymeradwywyd rhaglen gyfalaf 2024-25.

20. Os oedd angen cyfarfod arall o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a/neu'r Cyngor dros yr haf, cytunodd yr aelodau y dylid cael cyfarfod arbennig.

4. <u>Cais am gymorth ariannol</u>

DERBYNIWYD

Papur opsiynau gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio (COU2324-134a)

NODWYD

1. Roedd y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer 2024-25 yn amlinellu'r incwm, y gwariant a'r arbedion disgwyliedig sydd eu hangen i gyflawni'r gyllideb ddiffyg arfaethedig o £3m.

2. Roedd angen o leiaf £5m, ond byddai benthyciad o £10m yn rhoi mwy o hyder a sicrwydd. Cynhaliwyd trafodaethau mewn egwyddor gyda CCAUC, ond nid mewn perthynas â ffigurau penodol.

3. Ystyriodd yr aelodau y goblygiadau, sef y byddai lefel y ddyled yn cynyddu ac yn ystyriaeth yn erbyn metrigau RCF y Brifysgol, oni bai bod y banc yn cytuno i ildio'r telerau - nad oedd wedi'i drafod gyda'r banc. Gall benthyciad o £5m fod yn fwy rhesymol i'w gael yn y tymor byr, a fyddai'n lleddfu'r materion mwy uniongyrchol a masnachu parhaus. Byddai angen ystyried cyfraddau llog a chynlluniau ad-dalu hefyd.

4. Nodwyd bod £5m yn bodloni gofynion y cyfamodau bancio. Mae gwaith modelu'r Brifysgol yn awgrymu y gallai ffigwr uwch arwain at dorri cyfamodau bancio.

**PENDERFYNWYD**

5. Dylid ystyried cais am flaenswm ar fenthyciad gan CCAUC neu Medr. Rhoddodd yr aelodau awdurdod i swyddogion ofyn am yr uchafswm o fewn y cyfamodau bancio cyfredol. Dylid ceisio cymeradwyaeth y Cyngor cyn cadarnhau unrhyw fenthyciadau o ganlyniad i drafodaethau. **[GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio

4. <u>Diweddariad ar Werth Presennol Net Fferm Penglais</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2324-135)

NODWYD

1. y gwelliant sylweddol a ragwelir i'r Gwerth Presennol Net (NPV) yn seiliedig ar addasiadau a gymeradwywyd, a gontractiwyd ac addasiadau a ragwelir yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2023-24 a 2024-25.

2. Roedd y sefyllfa well yn gysylltiedig â chynnydd mewn rhenti derbyniadwy yn 2023-24 a oedd yn y pen draw ychydig yn uwch na mynegeio contractau, a

chynnydd cymeradwy i renti y gellir eu derbyn yn 2024-25, sy'n debygol o fod yn uwch nag RPI ar ddyddiad mynegeio Mehefin 2024.

3. Roedd rhagolwg cyffredinol o NPV y prosiect yn £5.7m yn ffafriol o'i gymharu â'r model ariannol gwreiddiol.

4. Mae penderfyniadau strategol yn ymwneud â chynyddu ffioedd neuaddau ar gyfer 2023-24 a 2024-25 wedi adlinio incwm â chostau prosiect, gan danlinellu effaith codiadau ffioedd sy'n cyd-fynd â chwyddiant lle bo modd. Argymhellir bod codiadau rhent yn cyfateb neu'n rhagori ar y chwyddiant a ragwelir oni bai bod angen strategol neu angen busnes clir i atal hyn.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad.

5. Adroddiad ar Gyllideb Undeb Aberystwyth ar gyfer 2023-24

DERBYNIWYD

Adroddiad llafar gan Mr Simon Crick, Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio.

NODWYD

1. Ni chytunwyd ar y gyllideb derfynol eto. Mae trafodaethau'n parhau gydag Undeb Aberystwyth gyda gostyngiad arfaethedig o 5% yn y gyllideb. Bydd angen cynnal sgyrsiau pellach i ddeall a allwn ostwng hyn ymhellach, gan adlewyrchu'r dull gweithredu ar draws pob adran a maes o fewn y brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

2. Bydd cyllideb Undeb Aberystwyth yn cael ei hystyried gan y Cyngor mewn cyfarfod yn y dyfodol [**GWEITHRED**: Cyfarwyddwr Cyllid a Chynllunio].

6. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio (COU2324-136).

NODWYD

1. Mae angen diweddaru'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol i adlewyrchu'r strategaeth newydd.

2. Mae’r Cynllun Cyfraniad Effeithiol wedi adrodd ar sgôr isel yn gyson, sy'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant.

3. Mae ffyrdd o weithio, gan gynnwys prosesau gwerthuso, yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel rhan o ffrwd waith 'Ein Pobl'.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd yr aelodau y perfformiad yn ôl y Dangosyddion Perfformio Allweddol.

7. <u>Prisio Tair Blynedd AUPAS</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau.

NODWYD

1. Trafodwyd yr adroddiad yn fanwl yn y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. Mae'r Brifysgol wedi rhannu gwybodaeth gyd-destunol am ei sefyllfa ariannol bresennol gydag Ymddiriedolwyr AUPAS, ynghyd â gwybodaeth lefel uchel am y Rhaglen Drawsnewid. Mae'r Brifysgol yn aros am ymateb swyddogol, a fydd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad cyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

2. Nododd yr Aelodau y diweddariad a chytunwyd ar y cynnig.

**80. IS-STRATEGAETH Y GYMRAEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (COU2324-137)

NODWYD

1. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau gwell cydlyniad rhwng yr amrywiol strategaethau a chynlluniau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws y brifysgol. Mae strategaeth farchnata hefyd yn cael ei datblygu i sicrhau bod camau gweithredu ar waith ar gyfer dechrau'r daith i fyfyrwyr.

2. Ar hyn o bryd mae swyddogion yn adolygu'r grantiau pwnc a dderbyniwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae lefelau parhad yn gadarnhaol mewn meysydd allweddol.

3. Mae'r ddarpariaeth mewn Amaethyddiaeth wedi cynyddu i 80 credyd y flwyddyn, sydd wedi arwain at gynnydd yn y grant pwnc a dderbyniwyd gan y Coleg. Mae Gwleidyddiaeth Ryngwladol hefyd wedi derbyn cynnydd yn ei grant pwnc. Nododd swyddogion y gallai fod newid mewn modelau cyllido yn y dyfodol, er mwyn adlewyrchu'r gost o ddarparu darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

4. Mae addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel Meistr yn heriol, a gall fod yn anodd cynllunio darpariaeth gynaliadwy.

5. Holodd yr Aelodau am y cynnydd yn erbyn y targedau. Adroddwyd bod y brifysgol yn arwain yn genedlaethol mewn sawl ffordd. Mae newidiadau ym mholisïau'r Coleg Cymraeg yn golygu y gallai fod angen i'r brifysgol adolygu ei darpariaeth.

6. Holodd yr aelodau a oedd colli'r ddarpariaeth AGA wedi effeithio ar dargedau tymor hir y brifysgol a'i thargedau'n ymwneud â denu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. Cadarnhaodd swyddogion fod staff wrthi'n nodi cyfleoedd, ac yn cyfrannu at yr agenda genedlaethol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad.

## 81. MATERION LLYWODRAETHU

1. Adroddiad ar ddyddiadau cyfarfodydd 2024-25

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2324-138).

NODWYD

1. Cynigiwyd bod y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn cael eu cynnal ar yr un diwrnod yn hydref 2024, gyda chyd-bwyllgor Cyllid ac Archwilio ym mis Tachwedd i ganolbwyntio ar adrodd diwedd blwyddyn. Bydd hyn yn cael ei ystyried gyda Chadeiryddion y pwyllgorau perthnasol, ac yn cael ei adolygu ar ôl y cyfarfod.

2. Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfodydd blaenorol y Cyngor, caniatawyd cymaint o amser â phosibl rhwng Pwyllgorau a'r Cyngor, er mwyn sicrhau amser i ddiwygio papurau ar ôl craffu ar lefel pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

3. Cytunodd yr aelodau ar y dyddiadau a'r cynnig ar gyfer cyd-bwyllgor o’r ARS a’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2. Diwygiadau i Gytundeb Perthynas Undeb Aberystwyth

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2324-139)

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu’n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Heblaw am ddiweddaru'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r Cytundeb Perthynas fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cadw'r Cytundeb Perthynas sydd mewn grym ar hyn o bryd am y flwyddyn academaidd sydd i ddod

3. Canlyniad Arolygiadau Effeithiolrwydd Pwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg, a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2324-140).

NODWYD

1. Yn ôl yr arfer, gwahoddwyd aelodau'r Cyngor i lenwi holiadur a rhoi adborth adeiladol ar ddull gweithredu'r corff llywodraethu yn y flwyddyn ddiwethaf. Os oedd yn addas, darparwyd yr ymatebion a gafwyd yn rhan o broses y flwyddyn flaenorol er mwyn gallu gwneud cymariaethau.

2. Nododd yr Aelodau feysydd allweddol ar gyfer datblygu, sy'n cynnwys arolygaeth academaidd; a chydlynu rhwng y pwyllgorau.

3. Sefydlwyd Grŵp Cadeiryddion yn ystod 2023-24 i sicrhau arolygaeth ar draws pob pwyllgor ac i alluogi cynllunio gwell.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodi cynnwys yr adroddiad a myfyrio ar unrhyw awgrymiadau ynghyd â chanfyddiadau'r Adolygiad Llywodraethu. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg]

4. Strwythur y Cyfadrannau: Strategaeth Academaidd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2324-141)

NODWYD

1. Mae'r cynnig wedi cael ei ystyried gan y Senedd a'i argymell i'r Cyngor. Codwyd rhai pryderon yn y Senedd mewn perthynas â'r geiriad a manylion gweithredu. Cafodd y ddwy elfen eu cydnabod a'u diwygio.

2. Mae'r gwaith yn cael ei ymgorffori yn y Rhaglen Drawsnewid, ynghyd â'r newidiadau arfaethedig i'r Ysgolion yn y dyfodol. Mewn ymateb i gwestiwn, mae'r Brifysgol yn gyffredinol yn ymgymryd â gwaith marchnata ar sail meysydd pwnc, nid ysgolion nac adrannau.

**PENDERFYNWYD**

3. Roedd yr aelodau'n fodlon ar y cyfeiriad a chymeradwywyd y cynnig.

5. Aelodaeth y pwyllgorau a'r matrics sgiliau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2324-142)

NODWYD

1. Ar ôl cymeradwyo 4 aelod newydd o'r Cyngor, gwnaed gwaith i adolygu sgiliau ac arbenigedd yr aelodau yn erbyn y swyddi gwag ar bob pwyllgor. Roedd

cydbwysedd rhwng y rhywiau hefyd yn ystyriaeth allweddol i'r pwyllgorau. Rhannwyd cynigion cychwynnol gyda Chadeiryddion y pwyllgorau a chytunwyd arnynt mewn egwyddor.

2. Mae gan y matrics sgiliau wedi'i ddiweddaru feini prawf sydd newydd eu datblygu i arwain y broses hunanasesu.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd aelodaeth y pwyllgorau gan yr aelodau, gan nodi ei fod yn weithredol o 1 Awst 2024.

4. Cymeradwywyd meini prawf y matrics sgiliau wedi'i ddiweddaru, a byddent yn cael eu rhoi ar waith o flwyddyn academaidd 2024-25.

**82. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor, (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); a Jim O'Rourke, Rheolwr y Prosiect (COU2324-143).

NODWYD

1. Nid yw'r targed gwariant o £1.6m y mis o leiaf yn cael ei gyflawni eto, ond bu gwelliannau sylweddol. Mae dulliau rheoli newid wedi'u rhoi ar waith, ac maent yn effeithiol.

2. Llongyfarchwyd y swyddogion am sicrhau'r grantiau ychwanegol. Cadarnhawyd hefyd bod y cais i adennill 96.48% o TAW gan CThEF wedi bod yn llwyddiannus.

3. Roedd cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r cyfnod gweithredol, ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r Cyfarwyddwr Masnachol i ystyried cyfleoedd.

**PENDERFYNWYD**

4. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

**83. Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2324-144).

NODWYD

1. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y gofrestr risg gan y Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr a'r Pennaeth Cynllunio Strategol.

2. Mae Brexit wedi cael effaith sylweddol ar ddenu myfyrwyr o'r UE. Amlinellwyd y risgiau mewnol ac allanol, yn ogystal â'r dulliau rheoli sydd ar waith i liniaru'r effaith. Mae un o'r heriau mwyaf yn ymwneud â'r risgiau TG mewnol, yn enwedig materion yn ymwneud â data. Mae mesurau lliniaru tymor byr ar waith ond gallant gymryd amser i'w datrys yn llawn.

3. Trafododd yr aelodau a fyddai canlyniadau graddedigion yn cael effaith ar ddenu myfyrwyr. Nodwyd bod meysydd pwnc yn gweithio'n galed i ddarparu addysgu a chaniatáu i fyfyrwyr ymwneud â chyflogadwyedd, ond gallai gael effaith ar rai meysydd.

4. Trafododd yr aelodau y sgôr darged, a chytunwyd y dylai'r Weithrediaeth a’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wneud rhagor o waith mewn perthynas â sgoriau targed a geirio risgiau. Roedd yr archwaeth risg yn adlewyrchu geiriad y risg, a allai fod angen ei ailystyried. Bydd gweithdy’n cael ei gynnal gyda’r Weithrediaeth i brofi’r archwaeth risg.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwywyd yr adroddiad a'r argymhellion.

**84. CYNNIG AR GYFER PARTNER DYSGU O BELL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (COU2324-145).

NODWYD

1. Amlinellwyd y broses ar gyfer dewis partner. Nodwyd bod cydweithwyr academaidd wedi bod yn rhan o'r trafodaethau a'r penderfyniadau.

2. Mae'r prosiect yn gweithio ar y dybiaeth y bydd yn derbyn ei garfan gyntaf o fyfyrwyr yn ystod Pasg 2025. Holodd yr aelodau a oedd yr adnoddau ar gael i gyflawni'r prosiect. Cadarnhawyd bod TG yn hyderus y gellid gweithredu'r gwaith o fewn chwe mis.

3. Dylai Undeb Aberystwyth ystyried sut y gallent feithrin cyswllt â myfyrwyr ynghylch cyrsiau dysgu o bell yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD**

4. Nododd a chefnogodd yr Aelodau benderfyniad y Weithrediaeth mewn egwyddor. Dylai'r Dirprwy Is-Ganghellor ddarparu rhagor o wybodaeth am y broses a'r rhesymeg dros benderfyniad y Weithrediaeth. **[GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor].

**85. EITEMAU ER GWYBODAETH**

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol:

1. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2324-146);

2. Adroddiad Blynyddol Undeb Aberystwyth i'r Senedd (COU2324-147);

3. Cynllun Gweithredu Effeithiolrwydd Llywodraethu (COU2324-148);

4. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i’r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2324-149)

**PENDERFYNWYD**

5. Cyflwynwyd cynnwys yr adroddiadau er gwybodaeth.

**86. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU**

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion is-bwyllgorau’r Cyngor (COU2324-150).

NODWYD

Yr adroddiadau a ddaeth o’r is-bwyllgorau.

**87. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

1. Gofynnodd yr Aelodau am sesiwn briffio ar sicrwydd academaidd yn 2024-25 [**GWEITHRED:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

2. Trafodwyd datblygiad llywodraethwyr, ochr yn ochr â'r angen i sicrhau amser gyda’n gilydd fel Cyngor i feithrin perthnasoedd, deall sgiliau a phrofiadau.

3. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ddydd Gwener 11 Hydref 2024, gyda diwrnod strategaeth wedi'i drefnu ddydd Iau 10 Hydref 2024. Darperir diweddariadau, fel y bo'n briodol, dros yr haf, a chytunodd yr Aelodau i ymgynnull ar gyfer cyfarfod arbennig os oes angen.

4. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Tim Woods, yr Athro Reyer Zwiggelaar; Mrs Ellen ap Gwynne a Ms Melanie Hames am eu cyfraniadau gwerthfawr yn ystod eu tymhorau ar y Cyngor a'r is-bwyllgorau.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:15.